# BWRDD IECHYD ANEURIN BEVAN A CHYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

# CYNLLUN GWEITHREDU

# YMATEB I'R ADRODDIAD GAN AROLYGIAETH GOFAL IECHYD CYMRU ADOLYGIAD O: MR H A DARPARIAETH GWASANAETHAU IECHYD MEDDWL YN DILYN Y LLADDIAD A GYFLAWNWYD YM MIS MAWRTH 2009

**Mehefin 2011**

**Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad**
**Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili**
**CYNLLUN GWEITHREDU**

## Cyflwyniad

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi cynnal adolygiad allanol annibynnol o'r amgylchiadau ynglŷn â Mr H a arweiniodd at y lladdiad a gyflawnwyd ym mis Mawrth 2009, ac o ddarpariaeth gwasanaethau iechyd meddwl ar yr adeg honno. Comisiynwyd yr adolygiad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru er mwyn sicrhau y nodir unrhyw wersi y gellid eu dysgu ac y gweithredir yn unol â hynny.

Fin nos, ar 24 Mawrth 2009, cyflawnodd Mr H laddiad tra'r oedd dan ofal Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Oedolion Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (BIAB) a Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC). Roedd Mr H wedi bod yn hysbys i'r gwasanaethau ers yr oedd yn saith mlwydd oed. Mae'r digwyddiad trasig hwn yn ofid calon i'r ddau sefydliad a oedd yn darparu gwasanaethau i Mr H, ac maent yn cydymdeimlo â theulu'r dioddefwr a theulu Mr H.

Mae BIAB ac CBSC wedi ymrwymo i wella Gwasanaethau Iechyd Meddwl, ac maent wedi cynnal adolygiad mewnol o'r gwasanaethau a ddarparwyd ar gyfer Mr H. Bydd y gwersi a ddysgwyd, yn ogystal ag argymhellion Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), yn sail i ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl mwy diogel a gwell yn y dyfodol.

Mae Adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi nodi nifer o argymhellion, ac mae'r cynllun gweithredu canlynol yn nodi sut y bydd BIAB ac CBSC yn bwriadu rhoi sylw i'r canfyddiadau.

**Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad**
**Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili**
**CYNLLUN GWEITHREDU**

## Pwnc: Integreiddio, Trosglwyddo a Rhannu Gwybodaeth rhwng gwasanaethau: 3.1, 3.2 a 3.3

| Cyf. | Argymhelliad | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 | **Mae'n rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) wella'r trefniadau ar gyfer gweithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol, a sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth eglur, gyffredin o'u swyddogaethau ei gilydd.** | Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed [CAMHS] yn atgyfnerthu ymhellach y trefniadau sydd wedi eu sefydlu er mwyn creu amrywiaeth hygyrch o wasanaethau i blant a theuluoedd. Bydd yn gwneud hyn trwy adolygu cylch gorchwyl y Cyd-grŵp Craidd CAMHS, er mwyn sicrhau bod swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ddau wasanaeth wedi eu diffinio. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau i Blant CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (IM ac AD) BIAB | Rheolwr Gwasanaethau i Blant CBSC a Rheolwr Cyffredinol CAMHS BIAB | Ionawr 2012 | Hydref 2011 | |
| 3.2 | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili weithio gyda'i gilydd i gryfhau'r prosesau ar gyfer trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, a chynnwys dulliau o gynllunio ar gyfer y dyfodol ac o roi ystyriaeth** | Bydd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (BIAB) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) yn datblygu llwybr trosglwyddo integredig ar y cyd sy'n nodi'r canlynol yn llawn:<br>➢ Swyddogaethau a chyfrifoldebau'r ddau wasanaeth<br>➢ Y camau gweithredu a gymerir yn ystod y cyfnod trosglwyddo | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau i Blant a Gwasanaethau i Oedolion CBSC, a Chyfarwyddwr Cyffredinol CAMHS a Gwasanaethau i Oedolion BIAB | Gorffennaf 2012 | Ionawr 2012 | |

# Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad
# Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili
# CYNLLUN GWEITHREDU

| Cyf. | Argymhelliad | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **amlasiantaethol i anghenion, gan nodi swyddogaethau a chyfrifoldebau eglur gyda chyfnod o orgyffwrdd os yw'n bosibl** | Bydd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan (BIAB) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (CBSC) yn datblygu rhaglen hyfforddi a chanllawiau ysgrifenedig cysylltiedig sy'n egluro: | | | | | |
| | | ➢ Swyddogaethau a chyfrifoldebau<br>➢ Camau gweithredu sydd wedi eu cynnwys yn y llwybr trosglwyddo.<br><br>Bydd yn rhaid i bob aelod o staff clinigol BIAB a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddilyn yr hyfforddiant a fydd yn cael ei ddarparu gan yr adrannau hyfforddi priodol. Bydd y Rheolwyr Timau perthnasol yn monitro i sicrhau y cydymffurfir â hyn. | | | | | |
| 3.3 | **Rhaid i BIAB a Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sefydlu camau i sicrhau:**<br>• **Bod trefniadau'n bodoli ar gyfer rhannu gwybodaeth gyfredol** | Bydd BIAB ac CBSC yn sicrhau bod yr holl dimau wedi sefydlu protocolau rhannu gwybodaeth, a chanllawiau a fydd yn egluro gofynion ac amserlenni'r broses o rannu a throsglwyddo gwybodaeth.<br>Darperir hyfforddiant ar y canlynol: | Cyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau i Oedolion CBSC | Nyrs Isadrannol IM ac AD BIAB, a Rheolwr Gwasanaethau IM ac AD CBSC | Gorffennaf 2012 | Ionawr 2012 | |

| Cyf. | Argymhelliad | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **rhwng y gwasanaethau;**<br><br>• **Y darperir cofnodion iechyd a gofal cymdeithasol unigolion yn brydlon ar adeg eu trosglwyddo i wasanaeth gwahanol;**<br><br>• **Ei bod yn ofynnol i gydgysylltwyr gofal, wrth gael eu penodi i achos newydd, adolygu'r holl gofnodion iechyd a gofal cymdeithasol blaenorol ynglŷn â'r unigolyn;**<br><br>• **Bod yr holl wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â diagnosis a rheolaeth risg yn cael ei hystyried wrth gynllunio gofal.** | ➢ Cyfrifoldebau Cydgysylltwyr Gofal<br>➢ Pwysigrwydd defnyddio cofnodion achosion a hanes blaenorol i gyfrannu at y broses o gynllunio gofal<br>➢ Cynnwys gwybodaeth am unrhyw ddiagnosis a wnaed<br>➢ Swyddogaeth asesu risg a rheoli risg mewn proses gynhwysfawr o gynllunio gofal.<br><br>Bydd polisi'r Dull Rhaglen Ofal yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu'r canlynol:-<br>➢ Gorchymyn i'r gwasanaeth atgyfeirio sy'n trosglwyddo'r achos unigol gymryd y cyfrifoldeb dros ddarparu'r holl gofnodion perthnasol a chrynodebau'r achos i'r gwasanaeth sy'n derbyn yr atgyfeiriad newydd.<br>➢ Gorchymyn i aseswr ofyn am nodiadau unigolyn o fewn 24 awr ar ôl dod i wybod am y tro cyntaf ei fod ef/hi wedi cael ei weld/gweld o'r blaen. Rhaid adolygu'r holl gofnodion blaenorol wrth gynnal yr asesiad.<br>➢ Proses Archwilio Isadrannol y | | | | | |

**Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad**
**Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili**
**CYNLLUN GWEITHREDU**

| Cyf. | Argymhelliad | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dull Rhaglen Ofal i fonitro y cydymffurfir â hyn.<br><br>Gorchymyn i swyddog hyfforddiant y Dull Rhaglen Ofal adlewyrchu'r holl newidiadau uchod ym mhob hyfforddiant ar y Dull Rhaglen Ofal yn y dyfodol.<br><br>Bydd BIAB ac CBSC yn monitro i sicrhau y cydymffurfir â'r Protocolau Rhannu Gwybodaeth. | Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Chyfarwyddwr Iechyd Meddwl yn y Gymuned a Gofal Sylfaenol | Medi 2011 | | |

## Pwnc: Lleoliadau Gofal Iechyd Parhaus: 3.4 a 3.5

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.4 | **Rhaid i BIAB sicrhau y pennir lleoliadau Gofal Iechyd Parhaus ar ôl ystyriaeth lawn a phriodol i ba mor addas yw'r lleoliad ar gyfer y claf. Rhaid iddo hefyd sicrhau bod dulliau cadarn wedi eu sefydlu i fonitro'r perfformiad clinigol, ansawdd a diogelwch y gofal a ddarperir mewn** | Bydd BIAB yn datblygu system gynhwysfawr ar gyfer adolygu a chytuno ar bob cais am leoliad Gofal Iechyd Parhaus. Bydd y system yn nodi'r lleoliad mwyaf priodol ar gyfer pob unigolyn, gan gynnwys monitro ansawdd a phriodoldeb, yn annibynnol. Bydd y system yn cynnwys. | Rheolwr Cyffredinol IM ac AD BIAB | Uwch Nyrs Gofal Iechyd Parhaus BIAB | Cwblhawyd | | Guidance notes for summary pre…<br><br>Peer Review questions (2).doc … |

# Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad
# Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili
# CYNLLUN GWEITHREDU

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **cyfleusterau o'r fath.** | | | | | | Placement review proforma.vers...<br>Terms of Reference Peer Review...<br>Peer Review Proforma version.1.. |
| 3.5 | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan sicrhau ei fod yn pennu llwybr eglur ar gyfer neilltuo ac ariannu lleoliadau Gofal Iechyd Parhaus, a bod pawb dan sylw yn deall eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau.** | Uwch Nyrs Gofal Iechyd Parhaus i ymweld â'r holl dimau er mwyn darparu hyfforddiant ar y canllawiau ysgrifenedig. | Rheolwr Cyffredinol IM ac AD BIAB | Uwch Nyrs Gofal Iechyd Parhaus BIAB | Awst 2011 | Hydref 2011 | |
| | | Bydd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn penodi Swyddog Monitro Ansawdd Contractau yn benodol ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Ei gyfrifoldebau fydd monitro y cydymffurfir â'r contractau. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Rheolwr Cyffredinol IM ac AD BIAB | Ionawr 2012 | | |
| | | Datblygir cofrestr o bob unigolyn | Rheolwr | Uwch Nyrs Gofal | Awst 2011 | | |

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | sydd wedi ei leoli ar hyn o bryd, a bydd yn cynnwys dyddiadau holl adolygiadau'r Dull Rhaglen Ofal. | Cyffredinol IM ac AD BIAB | Iechyd Parhaus BIAB | | | |

## Pwnc: Cynllunio Ôl-ofal: 3.6, 3.7, 3.8, 3.9, 3.10 3.11 a 3.12

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **3.6** | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac unrhyw drydydd parti, megis Ysbyty Cygnet, sefydlu gweithdrefnau cadarn i sicrhau y cynhelir cyfarfodydd i gynllunio ôl-ofal dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl mewn modd amserol, a bod tîm amlddisgyblaeth yn bresennol, ac y gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y Swyddog Meddygol Cyfrifol, y Cydgysylltydd Gofal a'r contractwr trydydd parti yn cytuno ar gynlluniau ôl-ofal ac yn eu** | Bydd yr holl gontractau gyda'r darparwyr gwasanaeth annibynnol yn nodi eu bod yn cymryd y cyfrifoldeb dros drefnu cyfarfodydd ôl-ofal Adran 117 ac adolygiadau Dull Rhaglen Ofal yn brydlon. Bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Contract. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Rheolwr Cyffredinol IM ac AD BIAB | Awst 2011 | | |
| | | Bydd y safon hon yn cael ei chynnwys yn y Polisi Adran 117 presennol a'r Polisi Dull Rhaglen Ofal perthnasol. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau i Oedolion CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Rheolwr Gwasanaethau IM ac AD CBSC a Nyrs IM ac AD BIAB | Medi 2011 | | |
| | | Bydd y Swyddog Monitro Ansawdd Contractau yn monitro y | Cyfarwyddwr Gwasanaethau | Rheolwr Cyffredinol IM ac | Ebrill 2012 | Hydref 2011 | |

**Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad**
**Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili**
**CYNLLUN GWEITHREDU**

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **llofnodi. Pan nad yw'r tri yn gallu cytuno, rhaid bod trefniant addas i atgyfeirio i uwch reolwyr.** | cydymffurfir â'r safon hon. Bydd y Swyddog Monitro Ansawdd Contractau yn rhoi gwybod i'r Tîm Rheoli Isadrannol os na chydymffurfir â'r safon hon. | IM ac AD BIAB | AD BIAB | | | |
| 3.7 | **Rhaid sicrhau bod trefn benodol wedi'i sefydlu ar gyfer cynllunio ôl-ofal y claf ar ddechrau cyfnod pan gaiff ei gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, er mwyn cynllunio ar gyfer proses ryddhau diogel gyda chefnogaeth.** | Bydd y polisi Adran 117 a pholisi'r Dull Rhaglen Ofal yn cael eu diwygio er mwyn sicrhau bod y broses cynllunio ôl-ofal yn cychwyn ar ddechrau'r cyfnod pryd y caiff y claf ei gadw. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau i Oedolion CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Rheolwr Gwasanaethau IM ac AD CBSC a Nyrs Isadrannol IM ac AD BIAB | Medi 2011 | | |
| 3.8 | **Cyn rhyddhau claf, rhaid bod tîm amlddisgyblaeth yn cytuno ar ôl-ofal, Dull Rhaglen Ofal a chynlluniau Rheoli Risg sy'n nodi manylion y trefniadau ar gyfer:**<br>• **Llety sy'n diwallu anghenion y claf yn ddigonol, pan fo llety'n ofynnol fel rhan o'r pecyn ôl-ofal.**<br>• **Sut i fonitro a goruchwylio meddyginiaeth, os yw'n briodol** | Bydd BIAB ac CBSC yn darparu Hyfforddiant ar gyfer yr holl Gydgysylltwyr Gofal ar y Polisïau Dull Rhaglen Ofal ac Adran 117 diwygiedig.<br><br>Bydd yr hyfforddiant yn cynnwys y canlynol:<br><br>➢ Llety<br>➢ Medddyginiaeth<br>➢ Cynllunio gofal<br>➢ Asesu a Rheoli Risg<br>➢ Camddefnyddio Sylweddau<br>➢ Trefniadau Rhyddhau. | Rheolwr Gwasanaethau IM ac AD CBSC a Nyrs Ranbarthol IM ac AD BIAB | Rheolwr Cyffredinol IM ac AD BIAB | Ebrill 2012 | Hydref 2011 | |

**Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad**
**Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili**
**CYNLLUN GWEITHREDU**

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | • **Lliniaru ystod lawn o ffactorau risg, gan gynnwys camddefnydd sylweddau, a niwed i'r claf a phobl eraill; a**<br>• **Chludiant, goruchwyliaeth a gofal ar gyfer diwrnod rhyddhau'r claf.** | BIAB ac CBSC i adolygu a diwygio Polisi'r Dull Rhaglen Ofal er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu pob un o'r uchod, yn ogystal â chytundeb amlasiantaethol ar gyfer rhyddhau, a'r broses ar gyfer symud y mater i fyny'r ysgol os ceir anghydfod. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau i Oedolion CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Rheolwr Gwasanaethau IM ac AD CBSC a Nyrs Isadrannol IM ac AD BIAB | Medi 2011 | | |
| **3.9** | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sefydlu dull o sicrhau bod cynlluniau ôl-ofal yn amserol, yn gyson, ac o ansawdd da, ac yn briodol i ddiwallu anghenion yr unigolyn. Dylai Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac Ysbyty Cygnet gynnal archwiliad o'r cleifion perthnasol sy'n cael eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar hyn o bryd, er mwyn asesu ansawdd, amseroldeb a chysondeb y cynlluniau ôl-ofal.** | Mae'n rhaid i BIAB ac CBSC ddatblygu Polisi Goruchwylio Llwythi Achos ar y cyd sy'n adlewyrchu pob un o'r canlynol:<br>➢ Angen i'r goruchwyliwr archwilio cynlluniau ôl-ofal Adran 117<br>➢ Cynllunio ansawdd gofal<br>➢ Sicrhau bod y cynlluniau yn bodloni anghenion canfyddedig yn brydlon. | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Nyrs Isadrannol IM ac AD BIAB a Rheolwr Gwasanaethau IM ac AD CBSC | Ionawr 2012 | Hydref 2011 | |
| | | Mae angen i BIAB ac CBSC lunio cofrestr o'r holl gleifion sy'n cael eu cadw ar hyn o bryd ac sy'n destun cynllunio ôl-ofal Adran 117.<br><br>Cynnal archwiliad o gynlluniau gofal cleifion perthnasol sy'n cael eu cadw ar hyn o bryd. | " | " | Awst 2011 | | |

**Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad**
**Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili**
**CYNLLUN GWEITHREDU**

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **3.10** | **Rhaid i BIAB ac CBSC sefydlu camau i sicrhau nad yw eu cyfrifoldebau ôl-ofal, o ran darparu llety a thai digonol dan Adran 117 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cael eu cyflawni drwy'r llwybr digartrefedd.** | Bydd BIAB ac CBSC yn adolygu a diwygio'r Polisi Adran 117 presennol, er mwyn sicrhau nad yw cleifion yn ddigartref wrth gael eu rhyddhau.<br><br>Bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu ar y Polisi Adran 117 diwygiedig ar gyfer ymarferwyr presennol ac ymarferwyr newydd. | "<br><br>" | "<br><br>" | Awst 2011<br><br>Ebrill 2012 | <br><br>Hydref 2011 | |
| **3.11** | **Er mwyn ei sicrhau ei hun ei fod yn cyflawni ei gyfrifoldebau Adran 117 yn llawn, rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili adolygu ei bolisïau a'i brosesau tai er mwyn gofalu y darperir tai addas o ansawdd da i bobl â phroblemau iechyd meddwl, yn enwedig y rhai hynny sydd i'w rhyddhau o'r ysbyty. Dylid sefydlu systemau i ganiatáu ar gyfer trefnu llety addas cyn rhyddhau claf o'r ysbyty.** | Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn adolygu a diwygio'r polisi a'r prosesau presennol yn ymwneud ag unigolion sydd â phroblem Iechyd Meddwl ac sydd angen llety.<br><br>Darperir gwely'r GIG neu wasanaeth arall i bob claf sy'n destun cynllunio ôl-ofal Adran 117 ar gyfer ei ryddhau o lety diogel | Dirprwy Brif Weithredwr CBSC<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Pennaeth Gwasanaethau Tai CBSC<br><br>Rheolwr Cyffredinol IM ac AD BIAB | Hydref 2011<br><br>Cwblhawyd | | |
| **3.12** | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac Ysbyty Cygnet sicrhau y** | Bydd holl argymhellion y Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl sy'n codi o adolygiadau a gynhelir mewn Unedau Diogelwch | Cyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Rheolwr Cyffredinol IM ac AD BIAB | Cwblhawyd | | |

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **gweithredir argymhellion tribiwnlys adolygu iechyd meddwl heb oedi, a'i bod yn eglur pwy sy'n atebol am gyflawni camau o'r fath. Rhaid sefydlu proses eglur ar gyfer atgyfeirio i uwch reolwyr.** | Isel yn cael eu hatgyfeirio i'r Rheolwr Tîm yn y Gwasanaethau Fforensig, a fydd yn gyfrifol am eu gweithredu.<br><br>Bydd yr holl achosion lle y ceir anghydfod rhwng gweithwyr proffesiynol, a lle na chânt eu datrys, yn cael eu hatgyfeirio gan y Rheolwr Tîm yn y Gwasanaethau Fforensig i fyny'r ysgol i'r tîm Rheoli Isadrannol a fydd yn ymyrryd nes y bydd y sefyllfaoedd wedi eu datrys. | " | " | Cwblhawyd | | |

## Pwnc: Rheoli Risg: 3.13 a 3.14

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **3.13** | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili eu sicrhau eu hunain bod rheoli risg yn rhan annatod o ddiwylliant yr holl wasanaethau iechyd meddwl, gan sicrhau bod:-** | Mae BIAB ac CBSC yn cydnabod bod Rheoli Risgiau yn rhan annatod o Wasanaethau Iechyd Meddwl, a byddant:-<br><br>➢ Yn parhau i hyfforddi'r holl Gydgysylltwyr Gofal ar Asesiad Risg 'Rhwydwaith Risg ac | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Rheolwr Gwasanaethau IM ac AD CBSC a Nyrs Isadrannol IM ac AD BIAB | Cwblhawyd | | Pathway for Forensic Rehabilit... |

**Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad**
**Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili**
**CYNLLUN GWEITHREDU**

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | ➢ **Yr holl staff yn cydnabod bod asesiadau risg cywir yn dibynnu'n sylfaenol ar nodi hanes yn drylwyr ac adolygu'r holl wybodaeth flaenorol (gan gynnwys asesiadau risg)**<br><br>➢ **Asesiadau risg a chynlluniau rheoli risg yr holl unigolion yn gyfredol, eu bod o ansawdd da, y derbynnir risg i raddau priodol, a'u bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.** | Ymchwil Cymwysedig Cymru' (WARRN).<br><br>➢ Yn ogystal â WARRN, bydd yr holl staff fforensig yn cael hyfforddiant yn y weithdrefn asesu Rheolaeth Risg fwy penodol, HCR-20.<br><br>➢ Datblygu llwybr yn disgrifio swyddogaethau a chyfrifoldebau'r holl staff a fydd yn rheoli unigolion risg uchel, a'r camau y dylent eu cymryd. | | | | | CPA UAP<br>nmunity risk assessr<br><br>High risk of harm to others - ... |
| | ➢ **Ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi i ganllawiau cenedlaethol a thystiolaeth am ffactorau risg cyffredin, gan gynnwys y rhai hynny ar gyfer cleifion ag anghenion cymhleth (e.e. problemau oherwydd camddefnyddio sylweddau ynghyd â phroblemau iechyd meddwl) a sefyllfaoedd y mae'n hysbys eu bod yn peri risg uchel (e.e. rhyddhau cleifion o ysbyty)** | Bydd yr Is-adran Iechyd Meddwl yn sefydlu Panel Cyfeirio Risg lle y gall yr holl gydgysylltwyr sy'n gofalu am unigolion risg uchel drafod achosion a gofyn am arweiniad a chyngor ynglŷn â'u rheoli. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Rheolwr Gwasanaethau IM ac AD CBSC a Nyrs Isadrannol IM ac AD BIAB | Cwblhawyd | | |
| | | Hyrwyddir a mynegir proffil y Panel Cyfeirio Risg ymhellach trwy holl Gymunedau BIAB. | “ | “ | Cwblhawyd | | |
| | ➢ **Y broses o reoli risg yn cael ei chynllunio a'i harchwilio'n effeithiol mewn** | Bydd Uwch Glinigwr o'r Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau yn aelod o'r Panel Cyfeirio Risg. | “ | “ | Awst 2011 | | |
| | | Mae'n rhaid i'r holl Dimau Iechyd | “ | “ | Cwblhawyd | | |

# Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad
# Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili
# CYNLLUN GWEITHREDU

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **cyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth.**<br><br>➢ **Cynlluniau wrth Gefn a Chynlluniau Argyfwng yn cael eu paratoi ar gyfer yr holl gleifion yr ymdrinnir â hwy dan y Dull Rhaglen Ofal, yn unol â Chanllawiau Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd Meddwl. Rhaid i gynlluniau gael eu hadolygu mewn cyfarfodydd tîm amlddisgyblaeth wrth weithredu mewn sefyllfaoedd argyfyngus neu drefniadau wrth gefn, yn arbennig pan fo'n ofynnol i'r camau gynnwys ymateb amlddisgyblaethol.** | Meddwl Cymuned ddefnyddio Agenda Tîm Amlddisgyblaeth safonol, ac y mae'n rhaid iddi gynnwys trafodaeth ar gleifion risg uchel. Mae'n rhaid cadw cofnodion o holl gyfarfodydd y Tîm Amlddisgyblaeth. | | | | | |
| | | Bydd cydymffurfiad â fformat yr Agenda Tîm Amlddisgyblaeth, yn ogystal â chydymffurfiad â WARRN, yn cael ei fonitro trwy ei gynnwys yn Archwiliad Blynyddol presennol y Dull Rhaglen Ofal. | " | " | Cwblhawyd ac yn barhaus | | |
| | | Gofynnir i'r Uned Cymorth a Datblygu gynnwys cydymffurfiad â'r broses asesu risg yn ei harchwiliad o'r Dull Rhaglen Ofal. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (IM ac AD) BIAB | Rheolwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu (IM ac AD) CBSC a Nyrs Ranbarthol IM ac AD BIAB | Cwblhawyd | | |
| | | Bydd GSSMS yn adolygu'r model gwasanaeth er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Fframwaith Gwasanaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer pobl sydd â phroblemau'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau a | " | " | Hydref 2011 | | |

# Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad
# Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili
# CYNLLUN GWEITHREDU

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | phroblemau iechyd meddwl ar yr un pryd. | | | | | |
| | | BIAB ac CBSC i ddatblygu a darparu hyfforddiant ar gyfer Llwybr Camddefnyddio Sylweddau a Phroblemau Iechyd Meddwl sy'n cyd-ddigwydd | “ | “ | Ebrill 2012 | Hydref 2011 | |
| 3.14 | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sicrhau bod asesiadau gofalwyr yn cael eu defnyddio'n gyson, a'u bod yn cydnabod yr effaith a gaiff ffactorau risg y claf ar anghenion y gofalydd ynghyd ag anghenion y claf.** | BIAB ac CBSC i adolygu Polisi'r Dull Rhaglen Ofal, gan gynnwys asesiad ar gyfer y gofalwyr yn eu proses cynllunio gofal pan y bo'n briodol. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Rheolwr Gwasanaethau IM ac AD CBSC a Nyrs Isadrannol IM ac AD BIAB | Cwblhawyd | | |
| | | Bydd cydymffurfiad yn cael ei fonitro trwy'r Dull Rhaglen Ofal a rhaglen archwilio yr Uned Cymorth a Datblygu. | “ | “ | Cwblhawyd | | |

**Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad**
**Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili**
**CYNLLUN GWEITHREDU**

## Pwnc: Darparu Gwasanaeth 3.15, 3.16, 3.17, 3.18, 3.19 a 3.20

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.15 | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sicrhau nad yw gwasanaethau yn eithrio cleifion ag anghenion cymhleth. Rhaid i feini prawf cymhwysedd fod yn hyblyg, a rhaid i'r pwyslais craidd fod ar anghenion yr unigolion** | Bydd BIAB ac CBSC yn gorchymyn i bob Tîm adolygu eu meini prawf cymhwysedd, er mwyn sicrhau nad yw unigolion ag anghenion cymhleth yn cael eu heithrio o'u gwasanaeth. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Rheolwr Gwasanaethau IM ac AD CBSC a Nyrs Isadrannol IM ac AD BIAB | Cwblhawyd | | |
| 3.16 | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sicrhau bod anghenion plant a phobl ifanc â Syndrom Asperger, a'r rhai sydd â phroblem iechyd meddwl yn ogystal â hynny, yn cael eu diwallu'n gynhwysfawr.** | Bydd CBSC a BIAB yn cynnal adolygiad strategol o wasanaethau i blant ag anableddau. Bydd hyn yn sicrhau y gweithredir gwasanaeth arbenigol i blant ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig yn y tîm plant ag anableddau. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol CBSC | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau i Blant CBSC | Cwblhawyd | | |
| | | Bydd Cylch Gorchwyl Grŵp Craidd CAMHS yn cynnwys gofyniad i archwilio pa mor effeithiol yw'r trefniadau gweithio ar y cyd i ddarparu gwasanaethau i blant â Syndrom Asperger a | " | " | Hydref 2011 | | |

**Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad**
**Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili**
**CYNLLUN GWEITHREDU**

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | phroblemau iechyd meddwl sy'n cydfodoli. | | | | | |
| 3.17 | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddatblygu ystod o ymatebion yn y gymuned i bobl sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys Triniaeth Gartref / Datrys Argyfwng, ochr yn ochr ag Allgymorth Pendant.** | Mae'r Bwrdd Partneriaeth wedi comisiynu strategaeth iechyd meddwl newydd ar gyfer Gwent. Bydd y strategaeth hon yn cynnwys disgrifiad o fodel y gwasanaeth a fydd ar gael i bawb â phroblemau iechyd meddwl, gan gynnwys y rhai hynny sydd ag anghenion cymhleth.<br>Bydd y model gwasanaeth hwn yn cynnwys Timau Datrys Argyfwng a Thriniaeth yn y Cartref, yn ogystal â Thimau Allgymorth Pendant. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl BIAB, a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol CBSC | Cyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion CBSC | Ionawr 2012 | Hydref 2011 | |
| 3.18 | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan sicrhau bod ystod gynhwysfawr o wasanaethau iechyd meddwl lleol ar gyfer cleifion mewnol ar gael i bob claf.** | Bydd BIAB yn adolygu'r llwybr cleifion mewnol presennol yn gyfan gwbl. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer nodi bylchau yn narpariaeth y gwasanaeth i gleifion mewnol. Bydd y canfyddiadau yn cael eu hanfon at y Bwrdd Partneriaeth. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD | Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Hydref 2011 | | |
| 3.19 | **Rhaid i Fwrdd Rhaglen Iechyd Meddwl Cymru sicrhau bod digon o ddarpariaeth GIG diogelwch Isel ar gael yng Nghymru.** | Bydd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn ymgysylltu â Bwrdd Rhaglen Cymru Gyfan i roi gwybod am unrhyw fylchau yn narpariaeth gwasanaethau diogelwch isel yng Ngwent. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD | Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Hydref 2011 | | |

**Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad**
**Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili**
**CYNLLUN GWEITHREDU**

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.20 | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sicrhau bod digon o adnoddau gan Dîm Allgymorth Pendant Caerffili er mwyn darparu gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos pan fo angen hynny.** | Bydd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn adolygu gwasanaethau'r Tîm Allgymorth Pendant gyda'r bwriad o ymestyn darpariaeth y gwasanaeth i 7 diwrnod. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau IM ac AD BIAB a Rheolwr Gwasanaethau IM ac AD CBSC | Awst 2011 | | |
| | | Bydd BIAB yn adolygu darpariaeth bresennol gwasanaethau Timau Allgymorth Pendant gyda'r holl bartneriaid Awdurdod Lleol eraill. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Rheolwr Cyffredinol IM ac AD BIAB | Ionawr 2012 | Hydref 2011 | |

## Pwnc: Arweinyddiaeth: 3.21, 3.22 a 3.23

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.21 | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol, gan gynnwys Timau Iechyd Meddwl Cymuned a Thimau Allgymorth Pendant:**<br>• **Yn cael eu rheoli'n effeithiol a bod ganddynt arweinyddiaeth gref; a**<br>• **Bod dulliau cefnogi a** | Mae BIAB ac CBSC yn cydnabod yr angen am reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol a chryf yn y gwasanaethau iechyd meddwl. Cyflawnir hyn trwy'r canlynol:<br>➢ Bydd perfformiad pob Arweinydd Tîm yn cael ei werthuso o'i gymharu â'i ddisgrifiad swydd<br>➢ Bydd amcanion eglur yn cael eu nodi.<br>➢ Bydd canfyddiadau adroddiad AGIC yn cael eu cynnwys yn yr | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Rheolwr Gwasanaethau IM ac AD CBSC a Nyrs Isadrannol IM ac AD BIAB | Hydref 2011 | | |

**Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad**
**Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili**
**CYNLLUN GWEITHREDU**

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **goruchwylio effeithiol gan reolwyr wedi eu sefydlu.** | amcanion.<br><br>Mae'r Bwrdd Partneriaeth wedi ei sefydlu, a bydd y Bwrdd hwn yn cymryd y cyfrifoldeb dros oruchwylio datblygiadau yn y dyfodol yn y broses o integreiddio gwasanaethau yng Ngwent. Bydd y pwyntiau canlynol yn Eitemau Sefydlog ar agenda'r Bwrdd hwn, a byddant yn cael eu monitro ganddynt<br><br>➢ Strwythurau rheoli integredig.<br>➢ Swyddi rheoli llinell unigol.<br>➢ Disgrifiadau swydd Integredig Arweinyddion Tîm | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Gofal Sylfaenol ac Iechyd Meddwl BIAB, a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol CBSC | Cyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD a Chyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion CBSC | Cwblhawyd | | |
| 3.22 | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili gryfhau systemau'r tîm amlddisgyblaeth er mwyn cefnogi a sicrhau prosesau effeithiol ar gyfer cynllunio gofal a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer atgyfeirio i uwch reolwyr.** | Bydd BIAB ac CBSC yn sicrhau yr adolygir holl bolisïau gweithredol y Timau Iechyd Meddwl Cymuned er mwyn sicrhau eu bod wedi sefydlu systemau Amlddisgyblaethol cadarn i gefnogi a sicrhau:<br>➢ Proses gynllunio gofal effeithiol<br>➢ proses gwneud penderfyniadau<br>➢ trefniadau symud materion i fyny'r ysgol | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol CBSC a Chyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau IM ac AD BIAB a Rheolwr Gwasanaethau IM ac AD CBSC | Hydref 2011 | | |
| | | Gorchmynnir i bob Arweinydd Tîm symud unrhyw achos yn ddi-oed i fyny'r ysgol i'r Tîm Rheoli Isadrannol, pan ei fod o'r farn fod y broses | " | " | Cwblhawyd | | |

**Adroddiad Ymchwiliad i Ddigwyddiad**
**Cyfeirnod y Digwyddiad: Mr H Lladdiad Caerffili**
**CYNLLUN GWEITHREDU**

| Cyf. | Argymhellion | Camau Gweithredu | Cyfarwyddwr Arweiniol | Arweinydd Adrannol | Dyddiad Cwblhau | Dyddiad Adolygu Dros Dro | Cynnydd a/neu'r camau gweithredu ar ddyddiad yr adolygiad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | gwneud penderfyniadau yn y tîm yn cael ei pheryglu. Bydd y Tîm Rheoli Isadrannol yn cymryd camau unioni. | | | | | |
| **3.23** | **Rhaid i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan ac Ysbyty Cygnet gynnal adolygiad trylwyr o'r rhesymau am y penderfyniadau clinigol a wnaed ar adeg rhyddhau Mr H o Kewstoke, a'i ofal wedi hynny gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymuned a'r ffaith na dderbyniwyd Mr H i Dŷ-Sirhowy.** | Bydd BIAB yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o sail resymegol y penderfyniadau clinigol a wnaed gan staff BIAB fel y'u hamlygir yn yr adroddiad. | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Meddygol BIAB | Cyfarwyddwr Gwasanaethau IM ac AD BIAB | Awst 2011 | | |